

# Safonau Ei Gwneud Hi'n Iawn

## Chwiliwch am y marc

A hwythau'n aelodau o raglen datblygu Catalyddion Cymunedol, mae microfentrau yn y gymuned wedi ymrwymo i safonau 'Ei Gwneud Hi'n Iawn'. Ystyr 'Ei Gwneud Hi'n Iawn' yw bod y fenter neu grŵp wedi addo bod yn hyfyw ac yn gynaliadwy, gan ymrwymo i safonau ymarfer uchel ac i sicrhau na fydd yn siomi pobl. Mae hyn hefyd yn golygu bod y mentrau wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau, cymorth neu weithgareddau sy'n ddiogel ac o ansawdd da, gan gynnig y cymorth sydd ei angen ar bobl, a hynny ar adeg a thrwy ddull sy'n addas ar eu cyfer nhw, ac mewn modd parchus sy'n eu blaenoriaethu nhw.




## Chwilio ar adnodd Small Good Stuff

Mae'r holl fentrau'n arddangos marc y Safonau Ei Gwneud Hi'n Iawn ar gyfeiriadur Small Good Stuff. Mae modd chwilio am fentrau yn ôl cod post a meini prawf eraill yma

## Pethau i'w hystyried wrth chwilio am ofal neu gymorth

Wrth ddewis microfentrau yn y gymuned neu ddarparwyr bach, mae'n bwysig chwilio am arwyddion bod y ddarpariaeth yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn broffesiynol. Mae hyn yn cynnwys gwirio pa mor hir maen nhw wedi bod ar waith, gofyn am eirdaon, a dysgu am ei weithdrefnau o ran asesu risgiau a'u rheoli. Dylech chi sicrhau bod y microfentrau neu ddarparwyr bach yn dilyn polisïau diogelu ac iechyd a diogelwch, bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u diweddaru a bod yswiriant priodol ar waith. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried pa hyfforddiant y mae'r gweithwyr wedi'i gael, a sut maen nhw'n gloywi eu sgiliau. Dylai contract clir nodi pa gymorth a ddarperir, yn ogystal â phryd a ble y mae'n cael ei ddarparu, a'r gost. Dylech chi wirio sut y bydd y darparwr yn cadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol. Mae'n bwysig holi sut mae modd i chi wneud cwyn, beth sy'n digwydd os aiff pethau o chwith, ac a oes angen cofrestru'r gwasanaeth gydag Arolygiaeth Gofal

Copyright © 2026 Community Catalysts CIC
Reviewed April 2026 - Date of next review April 2027

Cymru. Yn olaf, gwnewch yn siŵr bod y fenter neu'r darparwr yn meddu ar y statws cyflogaeth cywir ac wedi cofrestru'n briodol gyda CThEF.

Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr hyn i'w ofyn i ficrofentrau yma

# Yr hyn y mae mentrau'n ei ddatgan

Mae mentrau sydd â Safonau Ei Gwneud Hi'n Iawn ar waith yn datgan bod eu busnes yn cydymffurfio â'r isod:

## Rydw i'n datgan bod fy menter neu grŵp:

- Yn cael ei redeg yn dda ac yn gynaliadwy — fel y manylir yn yr adran ymarfer isod
- Yn cynnig cefnogaeth sy'n helpu pobl i wella eu hiechyd neu eu lles

## Mae pobl wrth wraidd popeth rwy'n ei wneud. Rydw i'n datgan y byddaf i'n dangos hyn drwy:

- Gwerthfawrogi pobl a'u hanes, eu cryfderau a'u dyheadau
- Gadael i'r unigolyn arwain y ffordd, gan ystyried yr hyn sydd ei eisiau a'i angen arno
- Helpu pobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau
- Parchu preifatrwydd pobl

## Rydw i wedi ymrwymo i:

- Bod yn agored, yn onest, yn ddibynadwy, ac anrhydeddu cytundebau gyda gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n cael cymorth
- Gweithio gyda gonestrwydd a pharchu ffiniau proffesiynol bob amser

## Rydw i'n sicrhau bod fy menter a phopeth y mae'n ei wneud yn gyfreithlon ac yn deg

- Rydw i'n deall ffiniau rheoleiddio gofal (AGC) yn llawn ac yn gweithredu fy menter o fewn y ffiniau yma bob amser
- Rydw i wedi cofrestru gyda CThEF ac wedi derbyn rhif cyfeirnod trethdalwr unigryw — fel y bo'n berthnasol (masnachwyr unigol yn unig)
- Mae gen i yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ac yswiriant arall sy'n cwmpasu pob agwedd berthnasol ar yr hyn y mae fy menter yn ei gynnig
- Mae gen i Wiriad Datgelu a Gwahardd ar fy nghyfer i fy hun ac ar gyfer unrhyw staff newydd sy'n ymuno â'm sefydliad - o fewn y 3 blynedd diwethaf

Copyright © 2026 Community Catalysts CIC
Reviewed April 2026 - Date of next review April 2027

Eiddo deallusol unigryw CBC Catalyddion Cymunedol yw'r Safonau Ei Gwneud Hi'n Iawn ac maen nhw wedi'u diogelu o dan gyfraith hawlfraint y DU a Deddf Nodau Masnach 1994. Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio, trosglwyddo, dosbarthu nac addasu unrhyw ran o Safonau Ei Gwneud Hi'n Iawn mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CBC Catalyddion Cymunedol. Mae modd i ddefnyddio'r rhain heb awdurdod fynd yn groes i hawlfraint neu hawliau nod masnach, a gallai hynny arwain at gamau cyfreithiol.